OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 No. 1167

## Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2019

**Diwygio Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2018**

**2.**—(1) Mae Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2018(**1**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn erthygl 21, hepgorer paragraff (7).

(3) Yn y tabl yn Rhan C o Atodlen 4, ar ôl eitem 10 mewnosoder—

| | | |
|---|---|---|
| "11. | Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Quercus* L., ac eithrio *Quercus suber*, a fwriedir ar gyfer eu plannu, y mae eu cylchedd 1.2 m uwchlaw coron y gwreiddiau yn 8 cm neu fwy. | Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol eu bod wedi eu tyfu drwy gydol eu bywyd:<br>(a) mewn mannau cynhyrchu mewn gwledydd lle na wyddys bod *Thaumetopoea processionea* L. yn bresennol;<br>(b) mewn parth gwarchod a gydnabyddir yn barth gwarchod ar gyfer *Thaumetopoea processionea* L. neu mewn ardal sy'n rhydd rhag *Thaumetopoea processionea* L., sef ardal a sefydlwyd gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn unol ag IPSM Rhif 4; neu<br>(c) mewn safle sydd wedi ei ddiogelu yn ffisegol yn llwyr rhag cyflwyno *Thaumetopoea processionea* L. ac a arolygwyd ar adegau priodol ac y canfuwyd ei fod yn rhydd rhag *Thaumetopoea processionea* L." |

(**1**) O.S. 2018/1064 (Cy. 223), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r offeryn hwn.